sportwales
chwaraeoncymru

# Gwahoddiad i Dendro

*Awst 2025*

***Caffael sefydliad i gydweithio â Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol ym maes Chwaraeon, Partneriaethau Chwaraeon a Phartneriaid Cenedlaethol yng Nghymru gyda'r nod o gryfhau eu gwaith, gwella dulliau gweithredu a meithrin effeithiolrwydd hirdymor drwy wneud mwy o arbedion effeithlonrwydd a bod yn fwy effeithiol.***

*Dogfennau'r tendr hwn:*

| | |
|---|---|
| *Adran 1:* | *Cyflwyniad* |
| *Adran 2:* | *Gwybodaeth a Chyfarwyddiadau* |
| *Adran 3:* | *Amodau'r Tendr* |
| *Adran 4:* | *Manylion y Gofynion ac Ymateb* |

# *Adran 1: Cyflwyniad*

## *Cefndir*

*Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy’n cael ei adnabod wrth ei enw masnach – Chwaraeon Cymru) gan Siarter Frenhinol ar 4 Chwefror 1972. Daw ei arian o gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac incwm a gynhyrchir o'i weithgareddau ei hun. Chwaraeon Cymru yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â chwaraeon, ac mae'n gyfrifol am ddosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.*

*Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ar lefelau cymunedol ac elitaidd. Mae hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu symiau sylweddol o gyllid grant ar draws portffolio eang o weithgarwch chwaraeon yng Nghymru.*

*Mae Chwaraeon Cymru yn un o 48 o gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru. Yn unol â hynny, mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu ei amcanion lles ei hun. Archwilio Cymru sy’n gyfrifol am archwilio'r sefydliadau hyn i asesu i ba raddau y cyflawnir amcanion lles a'r pum ffordd o weithio y mae'r Ddeddf yn eu hyrwyddo.*

*Yn ogystal â gwella lefel cyfranogiad mewn chwaraeon ar lawr gwlad, ein nod hefyd yw rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ein hathletwyr brwd i gystadlu'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.*

*Ar hyn o bryd, mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dros bedwar lleoliad yng Nghymru; mae'r safleoedd yn cynnwys ein dwy Ganolfan Genedlaethol yng Ngerddi Sophia, Caerdydd ac ym Mhlas Menai, Caernarfon (mewn partneriaeth â Parkwood a Legacy Leisure); a swyddfeydd lloeren yng Nglannau Dyfrdwy ac yn Llanelli.*

*Mae Partneriaid a Ariennir wedi'u lleoli ledled Cymru mewn amrywiol leoliadau.*

*I gael rhagor o wybodaeth am Chwaraeon Cymru, ewch i: [www.chwaraeon.cymru](www.chwaraeon.cymru)*

## *Trosolwg o’r Gofynion*

*Cefndir*

*Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Chwaraeon Cymru wedi cefnogi amryw o bartneriaid gyda'u gwydnwch. Mae'r sector yn wynebu pwysau cynyddol a blaenoriaethau a chyfrifoldebau cystadleuol, a hynny gydag adnoddau cyfyngedig. Cydnabyddir nad yw’r dulliau presennol o weithio bob amser mor effeithlon ac effeithiol ag y gallent fod.*

*Mae grŵp o sefydliadau a ariennir wedi cynnig eu hunain i adolygu eu gweithdrefnau a'u dulliau gweithredu gyda'r bwriad clir o ddod yn esiampl o arfer gorau o fewn y sector. Mae gan bob sefydliad wahanol fannau cychwyn. Mae eu meintiau a’u graddfeydd yn wahanol, gyda strwythurau a lefelau adnoddau amrywiol. Dewiswyd y sefydliadau oherwydd eu meintiau a'u natur amrywiol.*

*Cyfleoedd i wella*

*Mae cwmpas y gwaith hwn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ystyried gwelliannau yn y meysydd canlynol:*

- *Llywodraethu ac Effeithiolrwydd Byrddau*
- *Ymddygiad, diwylliant ac amgylchedd: sut mae'r rhain yn effeithio ar allu'r sefydliadau i fod yn fwy effeithlon a gwydn*
- *Cyfleoedd i gydweithio ac arloesi ar draws y sector a thu hwnt*
- *Polisïau a phrosesau*
- *Cynllunio a chyflawni strategol a gweithredol – nodau hirdymor clir, strwythurau, dyrannu adnoddau ac ati*
- *Rheoli Risg*
- *Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial: Costau uchel ac addasrwydd isel oherwydd technoleg sydd wedi dyddio*
- *Ffyrdd o weithio – o bell o'i gymharu â gweithredol, ffyrdd mwy effeithlon o weithio a defnyddio adnoddau staff*
- *Materion yn ymwneud â Chyfathrebu: Camddealltwriaethau ac oedi oherwydd dulliau a sianeli cyfathrebu sy'n aneffeithlon/wedi dyddio.*

## *Trosolwg o'r Gofynion*

*Rydym ni (Chwaraeon Cymru), ar ran y sector, yn awyddus i recriwtio sefydliad a all weithio gyda'r partneriaid canlynol a Chwaraeon Cymru i edrych ar wella effeithlonrwydd gweithredol, amlygu arferion da ac adnabod patrymau ar draws sefydliadau o bosibl. Mae'r partneriaid wedi'u rhestru isod, a cheir bywgraffiad cryno yn yr atodiad:*

- *Hoci Cymru*
- *Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru*
- *Criced Cymru*
- *Golff Cymru*
- *Triathlon Cymru*
- *Tîm Llywodraethu Chwaraeon Cymru*

*Er gwybodaeth, mae'n bosibl y bydd cyfle i ymestyn y gwaith hwn ar draws Chwaraeon Cymru i gyd. Dylid dyfynnu ar gyfer hyn ar wahân o fewn mynegiant o ddiddordeb.*

*Bydd y gwaith hwn yn archwilio'r canlynol (ond ddim yn gyfyngedig iddynt):*

- *Dyheadau ac amcanion strategol sefydliadau, pwyntiau poen a chyfleoedd ar gyfer newid*
- *Enghreifftiau o weithio'n effeithlon y gellir eu rhannu fel arferion da*
- *Adborth: Casglu gwybodaeth gan weithwyr cyflogedig, rhanddeiliaid ac aelodau fel y bo'n berthnasol*
- *Dadansoddi Data: Defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth i ganfod problemau o ran perfformiad*

- *Mapio Prosesau: Delweddu llifau gwaith i ddod o hyd i dagfeydd*
- *Asesu Technoleg: Gwerthuso a deall technoleg gyfredol a'r potensial i fod yn fwy effeithlon*
- *Cydweithredu Traws-swyddogaethol: Annog gwaith tîm a chydweithio ar draws adrannau (a'r potensial i wneud hynny ar draws partneriaid)*
- *Meincnodi: Cymharu â safonau'r diwydiant*
- *Rhaglenni Gwelliant Parhaus: Cyflwyno methodolegau fel Lean neu Six Sigma*

*Allbwn*

*Byddem yn disgwyl i'r cwmni llwyddiannus lunio adroddiad ar gyfer pob sefydliad sy'n cymryd rhan, gan gynnig nifer fach o flaenoriaethau effeithiol y gall pob sefydliad eu datblygu. Byddai Chwaraeon Cymru yn disgwyl adroddiad o safon y gellid ei ddefnyddio gyda'r sector ehangach.*

## *Profiad*

*Byddai angen i sefydliad llwyddiannus siapio a chynghori ar y meysydd gwaith hyn a dylai allu dangos:*

- *Profiad o nodi a gweithredu newid ar draws sefydliadau*
- *Profiad o reoli perthnasoedd yn effeithiol – delio â sgyrsiau sensitif, meysydd gwaith sensitif posibl a rheoli gwrthdaro*
- *Profiad o weithio gyda sefydliadau o wahanol feintiau, strwythurau ac aeddfedrwydd i arwain a chynghori ar effeithlonrwydd ac atebion posibl*
- *Arbenigedd mewn effeithlonrwydd sefydliadol – canfod pwyntiau poen, arfer da, nodi atebion yn seiliedig ar allu a chapasiti pob sefydliad*
- *Dulliau sy'n meddwl ymlaen, gan gynnwys defnyddio technoleg a deallusrwydd artiffisial*
- *Y gallu i ddeall diwylliant y sefydliad a gwybod sut i gefnogi ei ddatblygiad mewn perthynas ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol*
- *Dod o hyd i batrymau ac unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws sefydliadau*

### *Sefydliadau*

### *Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru*

*Mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru, sefydlwyd Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru yn ddiweddar a chafodd ei hymgorffori yn ystod haf 2024 i wella mynediad at weithgarwch corfforol ledled Powys a Cheredigion. Ein gweledigaeth sy'n dod i'r amlwg yw "Creu Cymunedau Iachach a Thrawsnewid Bywydau drwy Ffyrdd Actif o Fyw."*

*Mae sefydlu Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol yn gyfle amserol i fynd i'r afael â heriau lleol gydag atebion penodol sydd wedi'u teilwra i'r rhanbarth, a'r rheini'n adlewyrchu anghenion unigryw cymunedau Canolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys).*

*Mae Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru yn gweithredu fel cwmni preifat cyfyngedig drwy warant, a reolir gan fframwaith cadarn a thryloyw. Ar hyn o bryd, mae ein Bwrdd yn cynnwys chwe Chyfarwyddwr a dau Arsylwr, gyda lle i hyd at bedwar Cyfarwyddwr ychwanegol, gan sicrhau uchafswm o ddeg aelod. Mae'r Bwrdd yn cynnwys gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n darparu rheolaeth a goruchwyliaeth strategol. Mae 60% o aelodau'r Bwrdd yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf, ac mae 80% yn nodi eu bod yn ddysgwyr Cymraeg, gyda 100% o'r tîm Gweithredol yn rhugl yn y Gymraeg. Mae cynhwysiant ac iaith yn parhau i fod yn flaenoriaethau canolog yn ein ffyrdd o feddwl, ein prosesau cyfathrebu a'n diwylliant sefydliadol.*

*Ar hyn o bryd, mae'r tîm gweithredol yn cynnwys un aelod Gweithredol (Cyfarwyddwr Rhanbarthol), a bydd Rheolwr Partneriaeth a Rhaglen yn ymuno ym mis Medi. Bwriedir recriwtio Swyddog Cymorth Partneriaeth rhan-amser hefyd er mwyn cryfhau capasiti.*
*Dyma feysydd ffocws strategol Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru yn ein blwyddyn weithredol gyntaf:*

- *Meithrin Cysylltiadau*
- *Fframwaith Gallu a Gwella Prosesau Llywodraethu*
- *Datblygu Strategaethau*
- *Hunaniaeth Ranbarthol*
- *Datblygu Pobl*
- *Mapio Rhanddeiliaid*
- *Monitro a Gwerthuso*
- *Cyflwyno Cronfa Arloesi i gefnogi partneriaethau a chynlluniau newydd*

*Rydym yn siapio ein model gweithredu ac yn edrych ar ffyrdd o gyflawni gydag effaith a thegwch ar draws rhanbarth sy'n wynebu heriau sylweddol o ran mynediad, seilwaith a chapasiti cyflawni. Mae effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd yn gwestiynau dylunio byw i ni. Byddai cymryd rhan yn y rhaglen hon yn rhoi cyfle i archwilio'r cwestiynau hyn mewn ffordd gefnogol a chydweithredol sy'n rhoi ffocws penodol, gan ein galluogi i ddatblygu dulliau cynhwysol sy'n wirioneddol addas ar gyfer y realiti yng Nghanolbarth Cymru.*

### *Tîm Llywodraethu Chwaraeon Cymru*

*Mae'r tîm hwn yn cynnwys chwe aelod o staff ac mae'n gyfrifol am ddwy elfen o waith:*

- *Cefnogi datblygiad prosesau llywodraethu partneriaid i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf ar chwaraeon yng Nghymru*
- *Sicrhau bod partneriaid yn addas i dderbyn cyllid cyhoeddus ac yn glynu wrth y 'fframwaith gallu'*

*Mae'r tîm yn gweithio gydag oddeutu 70 o bartneriaid, gan gynnig amrywiaeth o gefnogaeth ragweithiol a chydweithio, cefnogaeth adweithiol 1-1, a rheoli risg, gan gynnwys diogelu a chyllid. Mae hefyd yn gweithio ledled y DU ar feysydd sy'n ymwneud â llywodraethu.*

*Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith cyfredol y Sector ar wydnwch i helpu'r sector o ran cynhyrchu incwm, cyfleoedd i rannu gwasanaethau a chyfleoedd ar gyfer modelau gweithredu gwahanol o bosibl o fewn chwaraeon Cymru.*

*Hoci Cymru – Yn hyrwyddo twf hoci yng Nghymru*

*Hoci Cymru yw'r corff llywodraethu cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a llywodraethu hoci maes ledled Cymru. Gydag ymrwymiad i danio angerdd dros hoci, mae Hoci Cymru yn gweithio ar bob lefel o'r gamp, o gyfranogiad ar lawr gwlad i berfformiad rhyngwladol elitaidd, gan sicrhau bod hoci yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn ysbrydoledig i bawb.*

*Gyda gweledigaeth glir i danio angerdd dros hoci, mae Hoci Cymru yn cefnogi clybiau, hyfforddwyr, chwaraewyr, gwirfoddolwyr a swyddogion drwy bob math o gyfleoedd i ymgysylltu, cystadlu a pherfformio. Mae'r sefydliad yn allweddol wrth ddatblygu llwybrau talent ieuenctid, cynyddu cyfleoedd i fenywod a merched mewn chwaraeon, a gyrru cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym maes hoci.*

*Ar lefel perfformiad, mae Hoci Cymru yn goruchwylio timau cenedlaethol dynion a menywod sy'n cystadlu mewn cystadlaethau Ewropeaidd a byd-eang mawr, gan gynrychioli Cymru gyda balchder ar y llwyfan rhyngwladol. Mae'r sefydliad hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth adnabod talent a hyfforddi perfformiad lefel uchel, gan helpu i feithrin sêr y gamp yn y dyfodol.*

*Y tu hwnt i gyflawniad cystadleuol, mae Hoci Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio hoci er mwyn sicrhau newid cymdeithasol cadarnhaol. Drwy bartneriaethau ag ysgolion, cymunedau ac awdurdodau lleol, mae'r sefydliad yn hyrwyddo lles corfforol, iechyd meddwl a sgiliau bywyd, gan bwysleisio manteision ehangach cyfranogiad mewn chwaraeon.*

*Gyda thîm ymroddedig ac angerddol, mae Hoci Cymru yn parhau i hybu proffil hoci yng Nghymru, gan sicrhau bod y gamp yn adlewyrchu gwerthoedd fel gwaith tîm, parch a rhagoriaeth. P'un ai a yw'n cyflwyno'r gêm i blentyn am y tro cyntaf neu'n cefnogi athletwyr elitaidd i gyrraedd eu potensial llawn, mae Hoci Cymru wrth galon hoci yng Nghymru, yn cysylltu pobl, lleoedd ac angerdd drwy chwaraeon.*
*I gael gwybod mwy neu i gymryd rhan, ewch i: [www.hockeywales.org.uk/cy](http://www.hockeywales.org.uk/cy)*

*Criced Cymru*

*Criced Cymru yw'r corff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer criced yng Nghymru. Mae wedi ymrwymo i wneud criced yn gamp i bawb. Ei nod yw gwarchod y pethau gwerthfawr a chwyldroi'r dyfodol drwy ddatblygu camp sy'n gynhwysol, yn unedig, ac yn meddwl ymlaen. Gyda gwreiddiau mewn gwerthoedd penodol, gan gynnwys Gyda'n Gilydd, Arwain a Gofal, nod Criced Cymru yw creu gêm lle mae pawb, waeth beth fo'u hoedran, eu rhywedd, eu cefndir, neu eu gallu, yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu croesawu, a'u hysbrydoli i gymryd rhan.*

*O glybiau ar lawr gwlad i fentrau cenedlaethol, mae Criced Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu pobl a diwylliant, cefnogi clybiau ffyniannus, chwyldroi'r gêm i fenywod a merched, darparu cyfleusterau addas at y diben, a chreu ffyrdd cyfareddol o gymryd rhan mewn criced. Mae eu ffocws hirdymor yn cynnwys trawsnewid bywydau a chymunedau drwy griced, gan wella cyfleoedd, lles a chynaliadwyedd. Fel arweinwyr ym maes llywodraethu moesegol, diogelu, a chydraddoldeb, amrywiaeth, a*

*chynhwysiant, mae Criced Cymru yn gwneud ei orau glas i sicrhau bod pob unigolyn yn y gymuned griced yn gallu ffynnu a theimlo eu bod yn perthyn.*

*Dyma'r Weledigaeth a'r Strategaeth a lansiwyd ym mis Mehefin 2025: [Criced Cymru – Criced yng Nghymru]*

### *Triathlon Cymru*

*Triathlon Cymru yw'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer triathlon yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am oruchwylio datblygiad a llwybrau perfformiad y gamp ledled y wlad, ac am y ffordd mae'n cael ei llywodraethu. Mae'n chwarae rhan hanfodol wrth feithrin talent, cefnogi cyfranogiad ar lawr gwlad, a hyrwyddo triathlon fel camp i bawb.*

*Gweledigaeth Triathlon Cymru yw datblygu cymuned driathlon sy'n gwella lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Mae'r weledigaeth hon wedi'i hategu gan ei strategaeth, sy'n canolbwyntio ar dair colofn strategol:*

- *Llwyddiant – Cefnogi athletwyr i gyflawni eu potensial ar bob lefel, o lawr gwlad i bodiymau rhyngwladol.*
- *Cynhwysiant – Sicrhau bod triathlon yn hygyrch ac yn groesawgar i bawb, waeth beth fo'u cefndir neu eu gallu.*
- *Cynaliadwyedd – Datblygu camp wydn sy'n ymwybodol o'r amgylchedd ac yn cyfrannu at iechyd hirdymor cymunedau.*

*Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Gweledigaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon, gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol a hyrwyddo lles corfforol a meddyliol drwy chwaraeon.*

*Mae Triathlon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â chlybiau, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a threfnwyr digwyddiadau i gyflwyno calendr llawn digwyddiadau a chyfleoedd datblygu. Mae hefyd yn gartref i Ganolfan Perfformiad Triathlon Genedlaethol Cymru, sy'n cefnogi athletwyr elitaidd ar eu taith tuag at lwyddiant rhyngwladol.*

### *Golff Cymru*

*Golff Cymru yw'r corff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer golff yng Nghymru, sydd wedi ymrwymo i ddatblygu a chefnogi'r gêm ar bob lefel. Rydym yn darparu arweinyddiaeth, canllawiau a gwasanaethau i golffwyr a chlybiau ledled y wlad.*

*Mae'r hyn rydym yn ei wneud yn ymestyn o waith datblygu ar lawr gwlad i berfformiadau ar lefel uchel, gan helpu chwaraewyr newydd i ddechrau arni a chefnogi athletwyr elitaidd i gyflawni eu potensial. Rydym yn trefnu cystadlaethau ar gyfer golffwyr amatur o bob oed a gallu, ac yn gweithio'n agos gyda chlybiau i wella cyfleusterau, cael mynediad at gyllid, ac adeiladu dyfodol cynaliadwy.*

*Mae golff yng Nghymru yn dod yn fwy hygyrch ac amrywiol, ac rydym yn helpu i yrru'r newid hwnnw yn ei flaen. Ein pwrpas yw sicrhau safle golff fel camp lewyrchus nawr ac i'r dyfodol, ac mae ein gwerthoedd, sy'n llywio popeth a wnawn, yn dangos ein*

*hymrwymiad i fod o fudd i unrhyw un sy'n dymuno cael mynediad at ein camp: hwyl, go iawn, cynhwysol, cydweithredol, a rhagoriaeth. Ein strategaeth, Gêm Pawb, sy'n gyrru ein gweledigaeth lle mae golff yn gamp ar gyfer hwyl, ar gyfer chwaraeon, am oes.*

## *ADRAN 2: GWYBODAETH A CHYFARWYDDIADAU AR GYFER TENDRO*

### *Manyleb y Tendr*

*Rydym am weld y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2026.  Oriau gwaith i'w pennu mewn cyflwyniadau tendr.*

*AMSERLENNI*

---

*Dyma'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r tendr:*

- a. *Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau yw* ***12 hanner dydd, dydd Llun 1af Medi 2025***
- b. *Gwahoddir unigolion/sefydliadau ar y rhestr fer i drafod y tendr ar naill ai 11eg neu 12fed Medi 2025*
- c. *Dyfarnu'r tendr – erbyn 16eg Medi 2025*
- d. *Adolygiad o'r gwaith gyda Chwaraeon Cymru – oddeutu bob 3 wythnos.*

*Rhaid i chi sicrhau bod y tendr a gyflwynir yn bodloni'r gofynion yn y ddogfen hon (adran 4) yn llawn.*

*Fan leiaf, rhaid nodi atebion i'r cwestiynau pwysol yn adran 4 yn y mannau perthnasol. Gellir cyflwyno unrhyw wybodaeth ychwanegol hefyd ond ni fydd yn rhan o'r marciau cwestiynau pwysol.*

***Byddwch yn cael eich sgorio yn erbyn y meini prawf a restrir yn y tabl yn adran 4. Bydd unigolion/sefydliadau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer hefyd yn cael eu galw i gyfweliad ar ôl cyflwyno i egluro ymatebion yn y tendr.***

*Bydd y contract yn dechrau ar 22ain Medi 2025, neu tua hynny, am gyfnod o 6 mis.*

*Tâl*

*Telir yn unol ag amserlen y bydd Chwaraeon Cymru a'r contractwr neu'r contractwyr llwyddiannus yn cytuno arni. Telir am waith a gwblheir i safon sy'n foddhaol gan Chwaraeon Cymru o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb a gyflwynir yn gywir.*
*Ni fydd unrhyw un o weithwyr cyflogedig y contractwr yn cael ei ystyried yn benodiad cyflogedig i Chwaraeon Cymru, sut bynnag y'i telir.*

*GOFYNION CYFLWYNO*

*Dylid cyflwyno tendrau i Chwaraeon Cymru drwy GwerthwchiGymru. Rhaid i bob ymgeisydd ddilyn y cynllun pro forma a nodir isod (Adran 4) o ran y wybodaeth a roddir a strwythur y wybodaeth a gyflwynir.*

*Rhaid i'r rheini sy'n cyflwyno tendr wneud hynny drwy ymateb i'r meini prawf dethol a amlinellir yn adran 4 gydag unrhyw ddogfennaeth ategol drwy GwerthwchiGymru erbyn* ***12 hanner dydd, dydd Llun 1af Medi 2025. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl hyn yn cael eu hystyried.***

*Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau Chwaraeon Cymru ar gyfer cyflwyno tendrau, rhaid i chi sicrhau bod eich tendr yn cael ei gyflwyno yn unol â'r gofynion canlynol. Oni wneir hyn, sy'n cynnwys peidio â lanlwytho neu gyflwyno eich tendr erbyn yr amser cau, mae'n debygol y bydd eich tendr yn cael ei ystyried yn annilys.*

*Cyfathrebu â Chwaraeon Cymru*

*Rhaid i bob cais am ragor o wybodaeth, eglurhad neu unrhyw gysylltiad arall â Chwaraeon Cymru mewn perthynas â'r tendr hwn gael ei wneud drwy borth GwerthwchiGymru.*

*Cyfnod a Diwedd y Contract*

*Bydd cyfnod y contract yn rhedeg am uchafswm o 6 mis o 15 Medi 2025 ymlaen.*

*Bydd unrhyw gontract a all gael ei ddyfarnu yn cael ei drafod yn unol â thelerau ac amodau contract Chwaraeon Cymru. (Edrychwch ar adran 3)*

*Meini Prawf ar gyfer dewis a dyfarnu*

*Bydd unrhyw gontract a ddyfernir yn sgil y tendr hwn yn cael ei ddyfarnu i'r darparwr sy'n gallu dangos yn llwyddiannus y gallu i ddarparu ateb effeithlon, cymwys, dibynadwy a chost-effeithiol i'n gofynion.*

*Dadansoddiad o'r system sgorio*

*Panel sy'n cynnwys gweithwyr Cyfarwyddiaeth y System Chwaraeon fydd yn ymdrin â'r sgorio:*

*Bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r ymgeisydd neu'r ymgeiswyr sy'n gallu dangos yn llwyddiannus y gallu i gyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd. Wrth werthuso'r tendrau, bydd rhaniad o 20% ar gyfer ffioedd a chostau (Ymateb Masnachol) ac 80% ar gyfer ansawdd (Darparu Gwasanaethau a Phrofiad).*
*Ni ddylid cynnwys TAW wrth gyflwyno costau'r tendr.*

| *Adran* | *Canran pwysoli* |
|---|---|
| *Ansawdd (Darparu Gwasanaethau a Phrofiad)* | *80%* |
| *Masnachol (Ffioedd a Chostau)* | *20%* |
| ***Cyfanswm*** | ***100%*** |

*Telerau ac Amodau Talu*

*Bydd telerau talu 30 diwrnod Chwaraeon Cymru yn berthnasol i'r dyfarniad hwn. Yn eich ymateb i'r tendr, cofiwch gadarnhau eich bod yn derbyn y telerau hyn ar gyfer talu.*

*Cyfrinachedd*

*Fel rhan o'ch tendr, dylech ddarparu datganiad sicrwydd o gyfrinachedd ac annibyniaeth. Ni fydd hyn yn cael ei sgorio ond bydd bodolaeth datganiad addas yn amod ar gyfer dyfarnu.*

*Atgoffir y rheini sy'n tendro y dylid datgelu unrhyw wrthdaro perthnasol rhwng buddiannau sy'n codi mewn perthynas â'r tendr hwn yn ystod y broses dendro ac y bydd peidio â gwneud hyn yn arwain at derfynu'r contract.*

*Mae'r fanyleb hon yn nodi gofynion cyfredol Chwaraeon Cymru ar gyfer gwasanaethau. Mae'n bosibl y bydd newidiadau'n codi yn ystod oes y contract, er enghraifft, yn natur a swmp y gwaith a'r amserlen neu ofynion eraill. Bydd newidiadau i'r Fanyleb yn cael eu gweithredu drwy gyhoeddi newidiadau ysgrifenedig i bawb y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt.*

## ADRAN 3: AMODAU'R TENDR

*Drwy gyflwyno tendr, rydych yn cydnabod yr amodau canlynol yn llawn ac yn cytuno iddynt:*

a. *Mae cynnwys a gofynion dogfennau'r tendr wedi'u darllen a'u deall, a chydymffurfir â nhw lle bo angen.*

b. *Mae hwn yn dendr dilys, ac nid yw'r prisiau a/neu'r symiau wedi'u haddasu nac wedi bod yn destun dylanwad annheg gan unrhyw drefniadau na chytundebau gydag unrhyw drydydd parti.*

c. *Nid ydych wedi cyfathrebu ag eraill, ac ni fyddwch yn gwneud hynny, cyn i unrhyw gontract gael ei ddyfarnu ynghylch y swm a dendrwyd na manylion penodol, ac eithrio lle mae angen datgelu'r wybodaeth hon i gael gwybodaeth i gefnogi ein cynnig.*

d. *Nid ydych wedi ymrwymo i unrhyw drefniant na chytundeb a allai arwain at eraill yn peidio â chyflwyno tendr neu ddylanwadu ar y swm a dendrwyd gan eraill, ac ni fyddwch yn gwneud hynny.*

e. *Nid ydych wedi cynnig unrhyw gymhelliant, ariannol neu fel arall, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i unrhyw berson na thrydydd parti mewn unrhyw ffordd i ddylanwadu ar unrhyw dendr a gyflwynir neu ran ohono, ac ni fyddwch yn gwneud hynny.*

f. *Mae egwyddorion a gofynion y dystysgrif hon wedi'u dwyn i sylw unrhyw isgontractwyr, cyflenwyr neu gymdeithion sy'n gysylltiedig â'r tendr hwn, neu byddant yn cael eu dwyn i sylw unrhyw isgontractwyr, cyflenwyr neu gymdeithion sy'n gysylltiedig â'r tendr hwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.*

g. *Rydych drwy hyn yn cynnig ymrwymo i gontract gyda Chwaraeon Cymru yn unol â'r gofynion yn y tendr hwn ac ar gyfer y costau a'r ffioedd yn eich ymateb i'r tendr.*

h. *Mae unrhyw faterion, boed yn dechnegol, yn weithredol, yn fasnachol neu'n gytundebol lle nad yw eich ymateb i'r tendr yn cydymffurfio, naill ai'n llawn neu'n rhannol, â gofynion y tendr hwn, wedi'u diffinio'n glir mewn dogfen o'r enw 'Cymwysterau'r Tendr', ac wedi'u cyflwyno fel rhan o'ch ymateb tendr.*

## *ADRAN 4*

*MANYLION Y GOFYNION AC YMATEB*

*Darparu Gwasanaethau a Phrofiad:*
*Mae pwysoliad yr adran hon yn 80%. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn cael eu sgorio gan banel gwerthuso gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfer sgorio, sef 0, 1, 3 neu 5 (0 yw'r isaf a 5 yw'r uchaf), a'r matrics isod.*

| | |
|---|---|
| *Sgôr o 0* | ***Dim ymateb neu ymateb nad yw'n berthnasol i'r cwestiwn, neu gwestiwn heb ei ateb.*** |
| *Sgôr o 1* | ***Ymateb Gwael*** *– Mae'r ateb wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn yn rhannol ond nid oes tystiolaeth o'r ddarpariaeth a geisir. Diffyg dealltwriaeth wirioneddol o'r gofynion neu dystiolaeth o'r gallu i gyflawni.* |
| *Sgôr o 3* | ***Ymateb Derbyniol*** *– Mae'r ymateb yn cydymffurfio â'r cwestiwn ac yn darparu'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani.* |
| *Sgôr o 5* | ***Ymateb Rhagorol*** *– Mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol gyda thystiolaeth glir i gefnogi atebion. Mae'r sawl sy'n tendro yn dangos y gall fodloni'r gofynion neu ragori arnynt.* |

*Bydd y sgôr ar gyfer pob cwestiwn yn cael ei lluosi â'r pwysoliad i ddarparu sgôr bwysoli. Yna bydd cyfanswm y sgôr bwysoli yn cael ei ddosrannu i'r sgôr ansawdd cyffredinol (80%).*

*Masnachol:*

*Dyfernir y pwysoliad mwyaf (20%) i'r cynnig isaf ei bris sy'n dod i law. Bydd pob cynnig arall yn cael ei sgorio'n gymesur yn erbyn y cynnig buddugol.*

*Gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb pob cwestiwn yn uniongyrchol.*

| Testun y Cwestiwn | Ateb | Sgôr | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| DARPARU GWASANAETHAU A PHROFIAD (80%) | | | |
| 1. Rhowch fanylion am eich cefndir, gwybodaeth a meysydd arbenigedd sy'n gysylltiedig â'r maes pwnc hwn. | | 5 | 3 |
| 2. Amlinellwch sut y byddai'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni a'r fethodoleg y byddech yn ei defnyddio. | | 5 | 3 |
| 3. Rhestrwch unrhyw gontractau perthnasol (gydag enghreifftiau), gan gynnwys cyfeiriadau, sydd gennych ar hyn o bryd neu a fu gennych yn y gorffennol yng Nghymru / y DU sy'n berthnasol i'r meysydd gwaith. | | 5 | 2 |
| 4. Amlinellwch sut y byddech yn sicrhau y cynhelir lefel uchel o ansawdd drwy eich gwaith i gyd, gan gynnwys, lle bo'n briodol, cymwysterau'r staff hynny rydych yn bwriadu eu defnyddio.<br>Darparwch CVs / bywgraffiadau ymgynghorwyr a fydd yn darparu'r gwaith. | | 5 | 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *5. Amlinellwch sut y byddech yn rheoli unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau.* | | *5* | *1* |
| *6. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn chwaraeon. Amlinellwch pa gamau rydych chi wedi'u cymryd i sicrhau cyfle cyfartal i bawb o fewn eich sefydliad.* | | *5* | *1* |
| *YMATEB MASNACHOL (20%)* | | | |
| *1. Rhowch gyfradd ddyddiol ymgynghorydd yn seiliedig ar gontract 6 mis.*<br>***Bydd teithio a chynhaliaeth yn amodol ar gytundeb.*** | | *5* | *1* |